# Stori'r Nadolig



Hanesion o'r Beibl
am ddigwyddiadau'r Nadolig

# Stori'r Nadolig

Mae hanes y Nadolig cyntaf i'w weld yn y Beibl ac mae'n rhan bwysig o stori'r Beibl. Drwy'r Hen Destament cyfan roedd pobl Dduw wedi bod yn gwylio a disgwyl am 'achubwr', sef y Meseia, i ddod â heddwch i'w gwlad ac adnewyddu eu perthynas gyda Duw. Yn union ar ddechrau'r Testament Newydd yn llyfrau Mathew a Luc, cawn stori geni Iesu. Dyma ddechrau'r daith ryfeddol fyddai'n agor y ffordd i unrhyw un gael ei achub a dod i berthynas iawn â Duw.

Mae 2000 o flynyddoedd ers y Geni, ac ar hyd a lled y byd mae Cristnogion yn dathlu'r Nadolig i gofio y Newyddion Da am gariad Duw, am lawenydd, gobaith a heddwch, a sut y byddai Iesu yn galluogi'r ddynoliaeth i fod yn ffrindiau gyda Duw.

Mae elfennau gwahanol Stori'r Nadolig, fel arfer, yn cael eu rhoi at ei gilydd fel un stori. Fodd bynnag mae'r cofnod yn Mathew a Luc yn amlygu pethau gwahanol am Iesu. Yn Mathew, mae Iesu'n cael ei addoli fel brenin gan y gwŷr doeth,ond yn Luc, y bugeiliaid yw'r rhai cyntaf i gael clywed y newyddion, sy'n dangos fod cariad Duw ar gyfer pawb.

## Mathew

Cafodd Mathew ei sgwennu ar gyfer yr Iddewon, ac mae'n dyfynnu adnodau o'r Hen Destament yn aml ac yn disgrifio sut roedd proffwydoliaethau'n cael eu cyflawni, i roi dealltwriaeth lawnach o bwysigrwydd Iesu fel y Meseia oedd wedi ei addo. Mae genedigaeth Iesu a stori'r gwŷr doeth yn cael eu cofnodi yn llyfr Mathew.

## Marc

Mae llyfr Marc yn cofnodi digwyddiadau o fywyd Iesu, ond nid ei eni. Felly, nid yw wedi ei gynnwys fel rhan o lyfr y Nadolig.

## Luc

Cafodd Luc ei sgwennu ar gyfer y 'cenhedloedd' - pobl oedd ddim yn Iddewon. Ffocws yr efengyl hon yw'r sicrwydd fod cariad Duw at bawb a'r camau rhyfeddol gymerodd Duw i ddangos ei fod yn caru pawb. Mae ymweliad yr angel Gabriel â Mair, hanes geni Iesu ac ymweliad y bugeiliaid wedi'u cofnodi yn llyfr Luc.

## Ioan

Dydy hanes geni Iesu ddim i'w weld yn Efengyl Ioan ond mae'n disgrifio Duw ac yn esbonio pam ddaeth Iesu i'r byd.

## Esboniadau

Mae esboniadau o eiriau, syniadau a brawddegau wedi'u hychwanegu i helpu deall y stori a'i chyd-destun.

## Fersiwn y Beibl

Mae'r testun a ddefnyddir yn y llyfr hwn i'w gael am ddim drwy fynd i www.beibl.net

# Stori'r Nadolig



Yn cynnwys Geiriau Allweddol ac Esboniadau

# Geni Iesu y Meseia

## Mathew pennod 1 adnodau 18 - 25

[18]Dyma ddigwyddodd pan gafodd Iesu y Meseia ei eni: Roedd ei fam, Mair, wedi cael ei haddo
i fod yn wraig i Joseff. Ond cyn iddyn nhw briodi a chael rhyw, dyma nhw'n darganfod fod yr
Ysbryd Glân wedi'i gwneud hi'n feichiog. [19]Roedd Joseff, oedd yn mynd i'w phriodi, yn ddyn da a charedig.
Doedd e ddim eisiau gwneud esiampl ohoni a'i chyhuddo hi'n gyhoeddus, felly roedd yn ystyried yn dawel
fach i ganslo'r briodas. [20]Roedd wedi bod yn meddwl am hyn pan gafodd freuddwyd: gwelodd angel Duw
yn dod ato a dweud wrtho, Joseff fab Dafydd, paid petruso mynd â Mair adre i fod yn wraig i ti, am mai'r
Ysbryd Glân sydd wedi gwneud iddi feichiogi. [21]Bachgen fydd hi'n ei gael. Rwyt i roi'r enw **Iesu** iddo, am
mai fe fydd yn achub ei bobl o'u pechodau." [22]Digwyddodd hyn er mwyn i beth ddwedodd Duw drwy ei
**broffwyd** ddod yn wir: [23]"Edrychwch! Bydd merch ifanc sy'n wyryf yn feichiog ac yn cael mab. Bydd y plentyn
yn cael ei alw yn **Emaniwel**" (Ystyr Emaniwel ydy "Mae Duw gyda ni.") [24]Pan ddeffrodd Joseff, gwnaeth
beth roedd angel Duw wedi'i ddweud wrtho. Priododd Mair, [25]ond chafodd e ddim rhyw hefo hi nes i'w
mab gael ei eni. A rhoddodd yr enw **Iesu** iddo.



### Geirfa

Ystyr yr enw **Iesu** yw 'iachawdwriaeth' neu 'achubwr' sy'n amlygu pam ddaeth i'r byd - i achub pobl o'u pechodau.


**Proffwyd** yw person a ddewisir gan Dduw i rannu ei negeseuon. Eseia yw'r proffwyd y cyfeirir ato yn adnodau 22 a 23. Proffwydodd Eseia lawer gwaith am ddyfodiad y Meseia - yr achubwr addawyd i genedl yr Iddewon.

Pan ddwedodd y proffwyd fod y babi i'w alw'n **Emaniwel** (Ystyr Emaniwel ydy "Mae Duw gyda ni.") doedd hynny ddim yn golygu mai dyna fyddai ei enw, ond yn hytrach roedd yn ddisgrifiad o pwy oedd y babi - Duw ar ffurf ddynol. Gelwir hyn yn **ymgnawdoliad**.

# Y Gwŷr Doeth

## Mathew pennod 2 adnodau 1 - 12

1 Cafodd Iesu ei eni yn Bethlehem yn Jwdea, yn y cyfnod pan oedd **Herod yn frenin**. Ar ôl
hynny daeth **gwŷr doeth o** wledydd y dwyrain i Jerwsalem 2 i ofyn, “Ble mae’r un sydd
newydd gael ei eni yn **frenin yr Iddewon**? Gwelon ni ei seren yn codi yn y dwyrain, a dŷn ni yma i
dalu teyrnged iddo. 3 Pan glywodd y **Brenin Herod** hyn roedd wedi cynhyrfu’n lân. Roedd cynnwrf yn
Jerwsalem hefyd. 4 Felly galwodd Herod y prif offeiriaid a’r arbenigwyr yn y Gyfraith Iddewig i’w gyfarfod.
Gofynnodd iddyn nhw, “Ble mae’r Meseia i fod i gael ei eni?” 5 “Yn Bethlehem Jwdea,” medden nhw.
“Dyna ysgrifennodd **y proffwyd**:
6 ‘Bethlehem, yn nhir Jwda - Nid rhyw bentref dibwys yn Jwda wyt ti; achos ohonot ti daw un i deyrnasu, un
fydd yn fugail i arwain fy mhobl Israel.’” 7 Ar ôl cael gwybod hyn, dyma **Herod** yn galw’r **gwŷr doeth** i
gyfarfod preifat. Cafodd wybod ganddyn nhw pryd yn union oedd y seren wedi ymddangos. 8 Yna dwedodd,
“Ewch i Bethlehem i chwilio am y plentyn. A gadewch i mi wybod pan ddewch o hyd iddo, er mwyn i



mi gael mynd i dalu teyrnged iddo hefyd.” 9 Ar ôl
gwrando beth oedd gan y brenin i’w ddweud, i
ffwrdd â nhw. Dyma’r seren yn mynd o’u blaen, nes
iddi aros uwchben yr union fan lle roedd y plentyn.
10 Roedden nhw wrth eu bodd! 11 Pan aethon nhw i
mewn i’r tŷ, dyna lle roedd y plentyn gyda’i fam,
Mair, a dyma nhw’n disgyn ar eu gliniau o’i flaen
a’i addoli. Yna dyma nhw’n agor eu paciau a rhoi
anrhegion gwerthfawr iddo - **aur a thus a myrr**.
12 Rhybuddiodd Duw nhw mewn breuddwyd
i beidio mynd yn ôl at **Herod**, felly dyma’r
gŵyr doeth yn teithio yn ôl i’w gwlad eu
hunain ar hyd ffordd wahanol.

## Geirfa

Mae yna fwy nag un **Brenin Herod** yn y Beibl. Roedd yr Herod yma yn cael ei adnabod fel Herod Fawr ac mae cofnodion hanesyddol yn dangos ei fod yn llywodraethwr uchelgeisiol a chreulon.

Mae’r gwŷr doeth yn cyfeirio at y babi newydd fel “**Brenin yr Iddewon**”. Mae hyn yn awgrymu nad oedd y gwŷr doeth yn Iddewon eu hunain. Fodd bynnag roedden nhw dal yn ei addoli, oedd yn dangos y byddai’n frenin ar bobl ym mhobman. Mae’r **gwŷr doeth** yn cael eu hadnabod weithiau fel **doethion** neu **frenhinoedd** ac roedden nhw’n astrolegyddion.

Yn adnod 6 mae’n dyfynnu y **proffwyd Micha** yn sgwennu at bobl Israel gyda neges Duw yn dweud y byddai eu hachubwr yn dod o Fethlehem. Roedd Micha yn byw ryw 700 mlynedd cyn geni Iesu.

Mae’r anrhegion, **aur**, **thus** a **myrr** yn arwyddocaol iawn. Mae aur yn symbol o frenhiniaeth ar y ddaear, ac yn dangos fod y gwŷr doeth yn ystyried Iesu fel brenin. Roedd thus yn cael ei ddefnyddio yn y deml gan yr archoffeiriaid ac yn cynrychioli Iesu fel Mab Duw. Roedd myrr yn cael ei ddefnyddio i eneinio cyrff marw, ac felly roedd yn rhagweld dyfodol Iesu.

# Yr Angel Gabriel

## Luc pennod 1 adnodau 26 - 38

26 Pan oedd Elisabeth chwe mis yn feichiog, anfonodd Duw yr **angel** Gabriel i **Nasareth**, un o
drefi Galilea, 27 at ferch ifanc o'r enw **Mair**. Roedd Mair yn wyryf (heb erioed gael rhyw), ac wedi'i
haddo'n wraig i ddyn o'r enw Joseff. Roedd e'n perthyn i deulu **y Brenin Dafydd**. 28 Dyma'r **angel** yn mynd
ati a'i chyfarch, "Mair, mae Duw wedi dangos ffafr atat ti! Mae'r Arglwydd gyda ti!" 29 Ond gwnaeth yr **angel**
i Mair deimlo'n ddryslyd iawn. Doedd hi ddim yn deall o gwbl beth roedd yn ei feddwl. 30 Felly dyma'r
**angel** yn dweud wrthi, "Paid bod ofn, Mair. Mae Duw wedi dewis dy fendithio di'n fawr. 31 Rwyt ti'n mynd
i fod yn feichiog, a byddi di'n cael mab. Iesu ydy'r enw rwyt i'w roi iddo. 32 Bydd yn ddyn pwysig iawn, a
bydd yn cael ei alw'n Fab y Duw Goruchaf. Bydd yr Arglwydd Dduw yn ei osod i eistedd ar orsedd **y
Brenin Dafydd**, 33 a bydd yn teyrnasu dros bobl Jacob am byth. Fydd ei deyrnasiad byth yn dod i ben!"
34 Ond meddai Mair, "Sut mae'r fath beth yn bosib? Dw i erioed wedi cael rhyw gyda neb." 35 Dyma'r **angel**
yn esbonio iddi, "Bydd yr **Ysbryd Glân** yn dod arnat ti, a nerth y Duw Goruchaf yn gofalu amdanat ti.
Felly bydd y plentyn fydd yn cael ei eni yn berson
sanctaidd - bydd yn cael ei alw yn Fab Duw.
36 Meddylia! Mae hyd yn oed Elisabeth, sy'n perthyn
i ti, yn mynd i gael babi er ei bod hi mor hen.
Roedd pawb yn gwybod ei bod hi'n methu cael
plant, ond mae hi chwe mis yn feichiog! 37 Rwyt ti'n
gweld, does dim byd sy'n amhosib i Dduw ei
wneud." 38 A dyma Mair yn dweud, "Dw i eisiau
gwasanaethu'r Arglwydd Dduw. Felly gad i beth
rwyt wedi'i ddweud ddod yn wir." Wedyn dyma'r
**angel** yn ei gadael hi.



### Geirfa

Mae'r gair Groeg 'angelos' yn golygu negesydd. Mae Cristnogion yn credu fod Duw, ar rai adegau, yn defnyddio **angylion** fel negeswyr, a bod y cyfathrebu rhwng dynoliaeth ac angylion yn dangos diddordeb Duw yn y bywyd dynol.

Pentref bach di-nod oedd **Nasareth** ble treuliodd Iesu ei blentyndod. Roedd **Mair** yn ferch ifanc ddiymhongar (mwy na thebyg yn ei harddegau), ond dewisodd Duw hi i wneud y gwaith pwysicaf erioed.

**Y Brenin Dafydd** oedd brenin cyntaf Jerwsalem a chafodd ei wneud yn frenin bron 1000 o flynyddoedd cyn geni Iesu. Roedd Iesu yn ddisgynnydd uniongyrchol iddo.

Mae'r **Ysbryd Glân** yn rhan o'r drindod. Duw y Tad, Duw y Mab (Iesu), Duw yr Ysbryd Glân. Dydy Cristnogion ddim yn credu mewn tri duw, ond un Duw sy'n bodoli gyda thair hunaniaeth neu fel tri pherson. Caiff yr Ysbryd Glân ei adnabod, gan amlaf, fel grym Duw ar waith.


Caiff hanes y newyddion gan Gabriel i Mair ei adnabod fel y Cyfarchiad.

# Bethlehem

## Luc pennod 2 adnodau 1 - 7

1 Tua'r un adeg dyma Cesar Awgwstws yn gorchymyn cynnal **cyfrifiad** drwy'r Ymerodraeth
Rufeinig i gyd. 2 (Hwn oedd y **cyfrifiad** cyntaf, gafodd ei gynnal cyn bod Cwiriniws yn
llywodraethwr Syria.) 3 Roedd pawb yn mynd adre i'r trefi lle cawson nhw eu geni, i gofrestru ar gyfer y
cyfrifiad. 4 Felly gan fod Joseff yn perthyn i deulu'r Brenin Dafydd, gadawodd Nasareth yn Galilea, a mynd
i gofrestru yn Jwdea – yn **Bethlehem**, hynny ydy tref Dafydd. 5 Aeth yno gyda Mair oedd yn mynd i fod
yn wraig iddo, ac a oedd erbyn hynny'n disgwyl babi. 6 Tra oedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael
ei eni, 7 a dyna lle cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni – bachgen bach. Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus
amdano, a'i osod i orwedd mewn **cafn** ar gyfer bwydo anifeiliaid. Doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo.






### Geirfa

**Cyfrifiad** yw'r broses pan mae gwybodaeth yn cael ei gasglu am bobl sy'n byw mewn gwlad neu ardal arbennig. Roedd y Rhufeiniad newydd gymryd rheolaeth o Jwdea a byddai'r cyfrifiad a ddisgrifir yma wedi cael ei ddefnyddio i benderfynu pwy ddylai dalu trethi a phwy fyddai'n cael eu galw i wasanaeth milwrol.

Dylid nodi nad oes unrhyw sôn am asyn, gŵr y llety na stabl yn y Beibl!

Cafodd Iesu ei osod i orwedd mewn **cafn** ar gyfer bwydo anifeiliaid. Dyna pam mae traddodiad wedi'n harwain i gredu fod Iesu wedi'i eni mewn stabl, ond fe allai fod wedi bod yn ogof neu'n lawr ar lefel is mewn ty. Ŷr hyn rydyn ni yn ei wybod yw ei fod yn lle ble byddai anifeiliaid yn cael eu cadw, a mwy na thebyg yn fudr a drewllyd. Doedd e'n sicr ddim y lle mwyaf amlwg i frenin gael ei eni!

### Bethlehem

Dwedodd y proffwyd Micha, 700 mlynedd ynghynt, ble y byddai Iesu yn cael ei eni.

Dinas Dafydd oedd yr enw arall ar Fethlehem oherwydd mai dyna ble cafodd Dafydd ei eni.

Mae Bethlehem ryw 70 milltir i ffwrdd o Nasareth fel yr hed y frân. Fe allai fod Mair a Joseff wedi teithio ymhellach na hyn fel nad oedd rhaid iddyn nhw deithio drwy Samaria, achos roedd yr Iddewon a'r Samariaid yn casáu ei gilydd.

# Y Bugeiliaid

## Luc pennod 2 adnodau 8 - 20

[8]Yn ardal Bethlehem roedd bugeiliaid allan drwy'r nos yn yr awyr agored yn gofalu am eu defaid.
[9]Yn sydyn dyma nhw'n gweld un o angylion yr Arglwydd, ac roedd ysblander yr Arglwydd fel
golau llachar o'u cwmpas nhw. Roedden nhw wedi dychryn am eu bywydau. [10]Ond dyma'r angel yn dweud
wrthyn nhw, "Peidiwch bod ofn. Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym
mhobman yn llawen iawn. [11]Mae eich **Achubwr** wedi cael ei eni heddiw, yn Bethlehem (tref y Brenin Dafydd).
Ie, y **Meseia**! Yr Arglwydd![12] Dyma sut byddwch chi'n ei nabod e: Dewch o hyd iddo yn fabi bach wedi'i
lapio mewn cadachau ac yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid." [13]Yn sydyn dyma filoedd o angylion
eraill yn dod i'r golwg, roedd fel petai holl angylion y nefoedd yno yn addoli Duw! [14]"Gogoniant i Dduw yn
y nefoedd uchaf, heddwch ar y ddaear islaw, a bendith Duw ar bobl." [15]Pan aeth yr angylion i ffwrdd yn
ôl i'r nefoedd, dyma'r bugeiliaid yn dweud wrth ei gilydd, "Dewch! Gadewch i ni fynd i Bethlehem, i weld
beth mae'r Arglwydd wedi'i ddweud wrthon ni sydd wedi digwydd." [16]Felly i ffwrdd â nhw, a dyma nhw'n
dod o hyd i Mair a Joseff a'r babi bach yn
gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid. [17]Ar ôl ei
weld, dyma'r bugeiliaid yn mynd ati i ddweud wrth
bawb beth oedd wedi digwydd, a beth
ddwedodd yr angel wrthyn nhw am y plentyn
yma. [18]Roedd pawb glywodd am y peth yn
rhyfeddu at yr hyn roedd y bugeiliaid
yn ei ddweud. [19]Ond roedd Mair yn
cofio pob manylyn ac yn meddwl
yn aml am y cwbl oedd wedi cael
ei ddweud am ei phlentyn. [20]Aeth y
bugeiliaid yn ôl i'w gwaith gan
ganmol a moli Duw am bopeth
roedden nhw wedi'i weld a'i glywed.
Roedd y cwbl yn union fel roedd yr
angel wedi dweud.



### Geirfa

**Achubwr** yw rhywun sy'n achub rhywbeth neu rywun. Mae Iesu yn cael ei alw'n **Achubwr** oherwydd ei fod yn achub y ddynoliaeth o'r gosb maen nhw'n ei haeddu am feddwl, gwneud a dweud pethau drwg (sef 'pechod'). Cymrodd Iesu y gosb arno'i hun drwy farw o'i wirfodd ar y groes, er nad oedd e wedi gwneud dim o'i le.

Ystyr **Meseia** yw'r 'un ddewiswyd gan Dduw i achub pobl'. Mewn geiriau eraill, mae'r Meseia yn achubwr. Mae Cristnogion yn credu mai Iesu yw'r **Meseia**.

Weithiau mae Iesu'n cael ei adnabod fel yr Arglwydd Iesu, sy'n cydnabod ei bŵer, ei awdurdod a'i reolaeth.

# Ymgnawdoliad



## Ioan pennod 1 adnodau 1 - 14

1 **Y Gair** oedd yn bod ar y dechrau cyntaf. Roedd **y Gair** gyda Duw, a Duw oedd **y Gair**. 2 Roedd
gyda Duw o'r dechrau cyntaf un. 3 Drwyddo y crëwyd popeth sy'n bod. Does dim yn bodoli ond
beth greodd e. 4 Ynddo fe roedd bywyd,a'r bywyd hwnnw'n rhoi **golau** i bobl. 5 Mae'r **golau'n** dal i ddisgleirio
yn y tywyllwch, a'r tywyllwch wedi methu ei ddiffodd. 6 Daeth dyn o'r enw Ioan i'r golwg. Duw oedd wedi
anfon Ioan i roi tystiolaeth - 7 i ddweud wrth bawb am **y golau**, er mwyn i bawb ddod i gredu drwy'r hyn
oedd yn ei ddweud. 8 Dim Ioan ei hun oedd **y golau**; dweud wrth bobl am **y golau** roedd e'n ei wneud.
9 Roedd **y golau go iawn**, sy'n rhoi golau i bawb, ar fin dod i'r byd. 10 Roedd **y Gair** yn y byd, ac er mai
fe greodd y byd,wnaeth pobl y byd mo'i nabod. 11 Daeth i'w wlad ei hun, a chael ei wrthod gan ei bobl ei hun.
12 Ond cafodd pawb wnaeth ei dderbyn (sef y rhai sy'n credu ynddo) hawl i ddod yn blant Duw. 13 Dim am fod
ganddyn nhw waed Iddewig (Dim canlyniad perthynas rywiol a chwant gŵr sydd yma); Duw sydd wedi'u
gwneud nhw'n blant iddo'i hun! 14 Daeth **y Gair** yn berson o gig a gwaed; daeth i fyw yn ein plith ni. Gwelon
ni ei ysblander dwyfol - ei ysblander fel Mab unigryw wedi dod oddi wrth y Tad yn llawn haelioni a gwirionedd.

## Deall Ioan pennod 1 adnodau 1 - 14

Mae'r adnodau hyn yn y Beibl yn dod o Efengyl Ioan. Mae fel darn o farddoniaeth i'w ddarllen ond yn anodd i'w ddeall. Mae Ioan yn defnyddio delweddau i geisio esbonio syniadau am Dduw, Iesu, y Cread a'r Nadolig. Er nad yw'r darn yma yn adrodd hanes geni Iesu, mae'n cael ei ddarllen mewn eglwysi adeg y Nadolig am ei fod yn rhoi darlun i ni o Dduw o'r Greadigaeth hyd at y Nadolig.



Mae Iesu'n cael ei ddisgrifio yma fel "**y Gair**". Mae geiriau yn mynegi pethau i eraill. Mae Cristnogion yn credu fod Iesu wedi mynegi cariad Duw at y ddynoliaeth.

Mae Iesu yn cael ei ddisgrifio yma hefyd fel "**y golau**". Mae golau yn dangos y ffordd yn y tywyllwch. Mae Cristnogion yn credu fod Iesu yn dangos y ffordd at Dduw a hefyd sut un yw Duw.

Os wyt ti'n rhoi enw Iesu yn lle'r geiriau **oren** a **gwyrdd** yn y testun ("**y Gair**" ac "**y golau**") ydy'r testun yn haws i'w ddeall?

### Geirfa

Mae Cristnogion yn credu fod yna dair gwedd i fodolaeth Duw. Duw y Tad, Duw y Mab a Duw yr Ysbryd Glân. Mae hyn yn cael ei alw y **Drindod**. Nid yw Cristnogion yn credu mewn tri duw, ond un Duw sy'n bodoli gyda thair hunaniaeth neu'n dri pherson. Mae'r darlleniad hwn yn esbonio sut roedd y tair gwedd ar Dduw yn bodoli o ddechrau amser, pan gafodd y byd ei greu. Roedd Iesu yn un wedd ar Dduw bryd hynny, ymhell cyn iddo gael ei eni'n fabi ar y ddaear.

Edrycha ar adnod 14: "Daeth y Gair [Iesu] yn berson o gig a gwaed; daeth i fyw yn ein plith ni." Mae hyn yn cael ei adnabod fel **yr Ymgnawdoliad**, ac y mae'n greiddiol i'r ffydd Gristnogol. Dyma beth mae Cristnogion yn ei ddathlu adeg y Nadolig.

# Beth yw'r Beibl?

Mae'r Beibl yn wahanol i lyfrau eraill. Mewn gwirionedd, casgliad o 66 o lyfrau gwahanol wedi eu hysgrifennu dros gyfnod o gannoedd o flynyddoedd ydyw, ond mae'n adrodd un stori fawr. Mae'r stori fawr hon yn sôn am gariad Duw at bawb a phopeth yn ei greadigaeth. Mae hefyd yn dangos i ni sut un yw Duw, sut i fyw yn iawn, a sut y gall pobl ddod yn ddilynwyr Iesu. Mae'r rhan fwyaf o Gristnogion yn credu bod yr Ysbryd Glân wedi ysbrydoli dros bedwar deg o awduron gwahanol i ysgrifennu ei neges; o bysgotwyr i frenhinoedd, bugeiliaid i feddygon, a milwyr i offeiriaid. Mae'r llyfrau hyn wedi cael eu rhannu yn ddwy adran: Yr Hen Destament a'r Testament Newydd.

Mae'r Beibl yn llawn straeon anhygoel, yn dechrau gyda hanes Duw yn creu ac yn gorffen yn y dyfodol. Mae yna straeon am wyrthiau, rhyfel, rhamant, teuluoedd a pherthynas, pobl dda a phobl ddrwg. Mae'r Beibl yn cynnwys nifer o wahanol fathau o ysgrifau, gan gynnwys hanes, caneuon, barddoniaeth, llythyrau a chyfreithiau. Mae'r Beibl yn sôn am fab Duw, Iesu: ei fywyd, ei ddysgeidiaeth, ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Mae hefyd yn disgrifio sut y dechreuodd yr eglwys.

Mae Cristnogion yn credu mai Gair Duw yw'r Beibl, a'i fod felly yn wir, yn sanctaidd ac yn gysegredig.- Mae Cristnogion hefyd yn credu eu bod yn gallu dysgu mwy am Dduw trwy ddarllen y Beibl, a dyna pam maen nhw'n meddwl ei bod hi'n bwysig neilltuo amser i wneud hyn.

# Stori Fawr y Beibl

Mae pob stori dda yn dechrau o'r dechrau ac nid yw'r Beibl yn eithriad. Mae'r Beibl yn dechrau gyda hanes Duw yn creu y byd a'r berthynas arbennig rhwng Duw â bodau dynol. Ond bu Adda ac Efa yn anufudd i Dduw trwy fwyta ffrwyth y goeden oedd yn rhoi gwybodaeth am bopeth - da a drwg.
Y gair sy'n cael ei ddefnyddio am y weithred hon o anufudd-dod i Dduw yw 'pechod', ac achosodd i'w cyfeillgarwch â Duw chwalu. Gelwir hyn 'Y Cwymp', ac o hynny ymlaen roedd pobl wedi'u gwahanu oddi wrth Dduw. Ond, o'r dechrau cyntaf, roedd gan Dduw gynllun i ddod â phobl yn ôl i berthynas iawn ag ef ei hun ac i ddod â chytgord yn ôl i'r greadigaeth.

Trwy bobl oedd yn cael eu galw 'y proffwydi' dangosodd Duw sut y gallai pobl ei adnabod, a dangos hynny trwy'r ffordd roeddent yn byw ac yn caru ei gilydd. Mae'r Hen Destament yn y Beibl yn cofnodi hefyd sut y dywedodd Duw wrth bobl, trwy'r proffwydi, y byddai'n anfon y Meseia i'w hachub. Y Meseia gafodd ei addo oedd mab Duw ei hun, sef Iesu, gafodd ei eni yn fabi ar y ddaear. Mae'r manylion am enedigaeth a bywyd Iesu, sut y tyfodd i ddweud wrth bawb am Dduw a faint roedd Duw yn eu caru, yn adran y Testament Newydd o'r Beibl.

Cafodd y rhan olaf o gynllun Duw i achub pobl ei roi ar waith pan fu Iesu farw ar y groes (croeshoeliad) ac yna codi yn ôl yn fyw (atgyfodiad). Mae Cristnogion yn credu ei fod, wrth wneud hynny, wedi dangos ei gariad at y byd trwy aberthu ei hun a chymryd y gosb am bechod y ddynoliaeth. Gelwir y weithred hon yn achubiaeth neu iachawdwriaeth.

Mae Cristnogion yn credu bod y berthynas rhwng y ddynoliaeth a Duw gafodd ei thorri gan Adda ac Efa wedi ei thrwsio gan Iesu Grist.

Mae gweddill y Beibl yn cynnwys straeon am Newyddion Da Iesu yn mynd ar led drwy'r byd, a sut y dechreuodd yr Eglwys dyfu.




Darganfyddwch fwy am y digwyddiadau
a'r bobl oedd yn rhan o'r Nadolig cyntaf gyda

**Cardiau DarganfodStori'r Nadolig**

a'r

**Cardiau Pobl ac Addewidion**

ar gael gan  Lift the Lid.

Lift The LID

Ⓒ Lift the Lid 2019

Defnyddir testun y Beibl gyda chaniatâd beibl.net

© 2015,2019 Cymdeithas y Beibl